# Hen ddogfen trefniadau Hacio'r Iaith 2016 ydy hon.

# Ewch i Hacio'r Iaith ar Hedyn er mwyn canfod y digwyddiad cywir.

HACIO'R IAITH haciaith.com

## Croeso i ddogfen trefniadau Hacio'r Iaith 2017

- Teipiwch ar y ddogfen yn syth!
- Does dim angen cyfrif!
- Peidiwch ag anghofio cofrestru am Hacio'r Iaith 2017 (am ddim).
- Dilynwch @haciaith a #haciaith

# Lleoliad

Dydd Sadwrn 21 Ionawr 2017

*Dechrau am 9yb*

Cyfeiriad:
5ed llawr
Pontio
Prifysgol Bangor
Ffordd Deiniol
Bangor
Cymru
LL57 2TQ
Ewrop

(Rydyn ni bellach wedi cadarnhau'r dyddiad a'r lleoliad.)

## Cinio / coffi a the

Nawdd cinio a choffi gan: Ganolfan Bedwyr

# Syniadau (drafft)

Nodwch eich syniad arfaethedig/drafft neu hanner syniad isod.

Gallech chi ddewis gwneud cyflwyniad, sgwrs, dadl, trafodaeth, gweithdy neu fformat arall.

Mae tri gofod gwahanol sydd wedi eu gosod ar gyfer math gwahanol o sesiwn.

Nodwch os oes angen help, offer, ayyb

## Cachathon

Dyma sesiwn o greu cachlwyth o brosiectau bach digrif, cysyniadol, gemau sili, ayyb. Diolch i http://endless.horse/ am yr ysbrydoliaeth. Beth am beiriant awtomatig i gyfieithu popeth mewn dogfen i iaith y Cofi? Prosiectau fel Saundersify? Pethe #pobztalk? Tumblrs newydd. (Stanno)

## Heliwm

Ffordd newydd sbon (wel…) o wireddu'ch syniadau fydd Heliwm, platfform ariannu torfol prosiectau Cymraeg.

## @CornishWordDay a phrosiectau eraill

Defnyddio Excel i greu gwefan WordPress gyda thrydariad dyddiol @CornishWordDay - GM
gan Gareth Morlais

## Diogelwch ar y We

Sesiwn/sesiynau ar beth i'w wneud a pha rhaglenni i'w defnyddio - Rhos

## Mae Bot Wedi Cysylltu ar y Trydar

Gweithdy ar sut i greu bots awtomatig ar Twitter fel UnigrywUnigryw, Wicidelta, MagicRealismBot, ayyb, ayyb. Dw i'n fodlon rhedeg sesiwn yn y prynhawn os mae unrhyw un eisiau dysgu. Efallai byddai hi'n haws creu un cŵl gyda'n gilydd yn hytrach na llu ohonyn nhw. Gawn ni weld. Carl Morris

## Y Llyfrgell Genedlaethol a Wicidata

Cyflwyniad am waith y Llyfrgell Genedlaethol efo Wikidata, gan edrych ar y gwerth sydd yn dod wrth drwy metadata casgliadau i Linked Data agored, a'r ffordd mae Wikidata yn gallu cyfieithu Data i'r Gymraeg. Jason Evans @wici_llgc

## Snîc Pîc ar ddatblygiadau LlGC

Diweddariad ar brosiect Cynefin, golwg ar wasanaeth (mewnol!) fideo newydd.

## Prentisiaeth TGCH Dwyieithog - Camau Cyntaf a Heriau

Dwi wedi bod yn trio datblygu prentisiaeth TGCh (technoleg gwybodaeth a chyfathrebu) yn ddwyieithog y flwyddyn yma, gallwn ni siarad am y heriau, pethau oedd gweithio'n dda ayb - a chasglu syniadau i wneud y peth yn haws! Leia

## Y Bywiadur

Ffosileiddio, neu forffio'n aderyn? Sut yr ychwanegwyd tua 8,000 o luniau ar Eiriadur Rhywogaethau Cymdeithas Edward Llwyd. Yr her: defnyddio Deep Learning agored ar y ffon, i adnabod aderyn a'i enwi'n Gymraeg. Robin

## Darlledu yng Nghymru II: lansiad papur Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Yn Hacio'r Iaith 2017 bydd Cymdeithas yr Iaith yn lansio papur trafod o'r enw Darlledu yng Nghymru II sydd yn edrych at fodelau ar gyfer datganoli darlledu i Gymru, gwersi o wledydd eraill, sicrhau arian i'r cyfryngau yng Nghymru, a mynd i'r afael â diffyg democratiaeth gan gynnwys darlledu ac aml-blatfform. Bydd cyfleoedd i wneud sylwadau a chynnal trafodaeth.

## Newyddiaduraeth Ddigidol yn Gymraeg - heriau a chyfleoedd

gan Ifan Morgan Jones, darlithydd mewn newyddiaduraeth yn Adran Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor.

## Gweithdy ymarferol Macsen

(Dewi)

## Sesiwn ar is-deitlo cyfryngau cymdeithasol

(Nwdls)

## Cynhadledd technoleg a'r Gymraeg - camau nesaf

Dyma gyfle i drafod camau nesaf ar ôl y Gynhadledd technoleg a'r Gymraeg a gynhaliwyd dydd Gwener.
(sgwrs 15-munud, Delyth)

## Nation.Cymru - Trafidaeth agored am y camau nesaf wrth sefydlu gwasanaeth newyddion ddwyieithog

*Ifan MJ*

## Syniad B

*Rhowch eich syniad yma!*

## Syniad C

*Rhowch eich syniad yma!*

## Cyfweliadau Haclediad

*Dim syniad sesiwn fel y cyfryw, jyst rhoi gwybod bydd Sioned Mills, Bryn Salisbury ac Iestyn Lloyd o'r podlediad 'Haclediad' yn crwydro a cheisio cael cyfweliadau efo'r cyfranwyr, ac unrhywun rili! Gobeithio rhoi rhifyn allan am y digwyddiad yn fuan wedyn. - @Llef*

# Ystafelloedd

Gweler isod.

# Rheol Dwy Droed

Peidiwch ag anghofio'r Rheol Dwy Droed:

Mae mwy nag un peth yn digwydd ar yr un pryd ac mae sesiynau gwahanol yn apelio at bobl wahanol. Felly mae croeso i unrhyw un camu allan o unrhyw sesiwn cyn y diwedd. Dyma'r Rheol Dwy Droed.

# Amserlen ddrafft

Ewch i'r amserlen papur am newidiadau!!!

| Amser | Y Bocs Sebon<br><br>gofod cyflwyno, sdeil-theatr taflunydd a sgrin | Y Gweithdy<br><br>ardal ar gyfer sesiynau dwylo/ymarferol<br>(wrthi'n ceisio cael teledu LCD ar gyfer cyflwyniadau) | O Gylch y Tan<br><br>cylch ar gyfer cynnal trafodaeth a sgwrs |
|---|---|---|---|
| **09:00 - 9:30** | Dim | Dim | Dim |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 09:30 - 10:20 | ‘Llywodraeth, Digidol ac Arloesi’ - Leighton Andrews, Athro Ymarfer mewn Arweinyddiaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ac Arloesi, Prifysgol Caerdydd | ... | ... |
| 10:30 - 11:20 | Newyddiaduraeth Ddigidol yn Gymraeg - heriau a chyfleoedd (35 mun, Ifan Morgan Jones)<br><br>Isdeitlo cyf cym S4C: esiamplau, heriau, atebion? (15 mun) | Y Bywiadur (20 mun, Robin) | |
| 11:30 - 12:20 | Y Llyfrgell Genedlaethol a Wicidata (25 mun, Jason Evans)<br><br>Prentisiaeth TGCh (technoleg gwybodaeth a chyfathrebu) camau cyntaf a heriau (25 mun, Leia)  (Ga i fynd yn ail plîs-Leia) | Gweithdy ymarferol Macsen (20 mun, Dewi)<br><br>Diogelwch ar y We (30 mun, Rhos) | |
| **12:20 - 13:20 (Cinio)** | Dim | Dim | Dim |
| 13:20 - 14:00 | | Snîc Pîc ar ddatblygiadau digidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyda diweddariad ar brosiect Cynefin. (15m, Illtud) | Nation.Cymru - Sefydlu gwasanaeth newyddion ddwyieithog. Trafodaeth am y camau nesaf. (30 mun, Ifan MJ) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14:10 - 15:00 | | | Darlledu yng Nghymru II: lansiad papur Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am ddatganoli darlledu (30 mun) |
| 15:00 - 15:20 | | Egwyl am goffi a the | |
| 15:20 - 16:10 | | Cachathon (50 mun, Stanno) | |
| 16:10 - 17:00 | | Mae Bot Wedi Cysylltu ar y Trydar (50 mun, Carl Morris) | |
| 17:00 | | DIWEDD | .................................... .................................... .................................... ......................... |

# Pethau sydd angen

| **Beth** | **Pwy sy'n dod ag e** |
|---|---|
| Baner Hacio'r Iaith | Carl |
| Soced 4-ffordd | Carl |

| | |
|---|---|
| Socedi 4-ffordd (ail a thrydydd) | - ?? |
| Nodiadau Post-it | Rhys |
| | |
| Fflip-siarts / Papur mawr / | Pontio? |
| Taflunydd / sgrin<br>(yn y Bocs Sebon yn unig) | Pontio |
| Teledu LCD (ar gyfer y Gweithdy) | i'w gadarnhau |
| Dyfeisiau | pawb |

# Swper/bar nos Wener

Pwy sydd eisiau cwrdd am swper **nos Wener ym mwyty Gorad, Pontio**?

Bydd bar Pontio hefyd ar agor os ydych chi am dorri syched.

Bydd croeso cynnes i bawb. Nodwch fod y nawdd dim ond yn talu am fwyd a choffi ar y dydd Sadwrn!

Ysgrifennwch eich enw isod er mwyn i ni gael argraff o niferoedd:

1. Carl Morris (dw i'n cyrraedd am fwyd tua 7:30yh, unrhyw un am fwyta gyda fi? :--))
2. Leia
3. Iestyn Lloyd
4. Rhys Wynne
5. Hywel
6. Euros
7. Stanno
8. Rhodri ap Dyfrig
9. Ifan MJ
10. ...

Bydd bwyd ar gael o'r bwyty o 6yh ymlaen i'r rhai sydd ddim yn gallu aros. (Diolch i Delyth am fwcio'r bwrdd/byrddau.)

# Llety

Mae gostyngiad ar lety ar gael o'r Ganolfan Rheolaeth i'r rhai sy'n sôn am Hacio'r Iaith (os oes llefydd ar gael).

# Teithio i Hacio'r Iaith

Cyfeiriad:
5ed llawr
Pontio
Prifysgol Bangor
Ffordd Deiniol
Bangor
Cymru
LL57 2TQ

Ewrop

Trên:

Anelwch am Orsaf Bangor! Un ffordd mewn, un ffordd mas.

Mae Pontio rhyw 10 munud ar droed o'r orsaf, a gellir cyrraedd Bangor Uchaf, lle mae'r Ganolfan Reolaeth, drwy Pontio ei hun.

Beic

...

Car

...

Rhannu teithio

- ...

# Cynnwys y ddogfen hon


Croeso i ddogfen trefniadau Hacio'r Iaith 2017

Lleoliad

    Cinio / coffi a the

Syniadau (drafft)

  - Cachathon
  - Heliwm
  - @CornishWordDay a phrosiectau eraill
  - Tech S4C
  - Diogelwch ar y We
  - Mae Bot Wedi Cysylltu ar y Trydar
  - Y Llyfrgell Genedlaethol a Wicidata
  - Prentisiaeth TGCH Dwyieithog - Camau Cyntaf a Heriau
  - Y Bywiadur
  - Darlledu yng Nghymru II: lansiad papur Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
  - Newyddiaduraeth Ddigidol yn Gymraeg - heriau a chyfleoedd
  - Gweithdy ymarferol Macsen
  - Sesiwn ar is-deitlo
  - Cynhadledd technoleg a'r Gymraeg - camau nesaf
  - Syniad A
  - Syniad B
  - Syniad C
  - Syniad Ch
- Ystafelloedd
- Rheol Dwy Droed
- Amserlen ddrafft
- Pethau sydd angen

Swper/bar nos Wener

Llety

Teithio i Hacio'r Iaith

- Trên:
- Beic
- Car
- Rhannu teithio

Cynnwys y ddogfen hon